# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# RHAGLEN CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 11eg o Fehefin, 2024** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel Isa, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Gethin Jones** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Gethin Jones **(GJ)** bawb i'r cyfarfod gyda chroeso arbennig i Derk Thomas i'w gyfarfod cyntaf fel aelod ar sedd Llithfaen.<br><br>**<u>YN BRESENNOL:</u>**<br><br>Olwen Roberts **(OR);** William Jones **(WJ);** Gethin Jones **(GJ);** Osian Hugh Williams **(OHW);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Derek Thomas **(DT);** Sianelen Pleming **(SP);** Lois Fychan **(LF)**; Y Cyng. Jina Gwyrfai **(JG);** a'r clerc Gillian Thomas **(GT)** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **<u>DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN</u>**<br><br>Ynyr Ellis **(YE);** Emlyn Williams **(EW).** |
| **3.** | **CYFLWYNO A MABWYSIADU COFNODION CYFARFOD MAI 2024** |
| | Cynnigwyd y cofnodion yn gywir gan WJ gydag OR yn eilio |
| **4.** | **MATERION YN CODI** |
| | **a) <u>MAINC LON CARGUWCH</u>**<br>Yn dilyn trafodaethau blaenorol ar y mater cytunwyd archebu mainc gan Glasdon am £502. 39 + TAW<br><br>**b) <u>TWMPATHAU /STRIBEDI CYFLYMDER I BISTYLL</u>**<br>Adroddodd y clerc ei bod wedi derbyn arweiniad gan Adran Trafnidiaeth, Cyngor Gwynedd I gysylltu ac Go Safe. Nid oedd wedi derbyn ymateb hyd yn hyn er gwaethaf ail gysylltu.<br><br>**c) <u>CAIS AM ARWYDDION 20 I FYNNU LON Y NANT</u>**<br>Derbyniwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn adrodd nad oes hawl gyfreithiol ganddynt i osod *'repeaters'* na gosod arwyddion ar phob cyffordd sydd tu fewn i'r arwyddion blaenorol 20mya. Mae yna nifer o gynghorau ac etholwyr wedi gofyn ar yr un darpariaeth ond mae'r canllawiau yn glir – unwaith mae gyrwyr yn cyrraedd y cyfyngiadau perthnasol mae'n hanfodol iddynt fod ym ymwybodol na nid yw'r cyfyngiadau cyflymder yn newid tan maent yn gweld arwyddion yn hysbysu hynny.<br><br>**d) <u>GJLJ – PONT LLITHFAEN</u>**<br>Y mater yn nwylo'r Cyngor Sir<br><br>**e) <u>OW – GORDYFIANT YM MHISTYLL</u>**<br>Y cais wedi ei yrru i Briffyrdd Dwyfor |

*Darparwyd gan: Clerc y Cyngor, 1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon, Gwynedd. LL54 7HP*
*Ffon: 07979 438 307 E.Bost: ccpistyll@outlook.com Gwefan: https://cyngorcymunedpistyll.weebly.com*

| | |
|---|---|
| | **f) <u>OW – FFOES GER CAE CHWARAE PISTYLL</u>**<br>Adroddodd OW ei fod wedi cymryd cyfrifoldeb am farbio rhan o ffoes ger y Cae Chwarae ym Mhistyll. Roedd wedi gofyn i'r Cyngor Sir rhoi sylw iddi sawl gwaith ond bod cyfrifoldeb yn cael ei gwestiynu. Bydd yn paratoi gwaith torri gordyfiant ar gost ei hun.<br><br>**g) <u>SP - GÔR YRRU AR LON RHOSYDD</u>**<br>Roedd y cais wedi ei yrru i'r Cyngor Sir ond nid oedd ymateb wedi ei dderbyn hyd yn hyn.<br>Gan fod yr aelodau yn pryderu mai ymateb arall anffafriol fydd yn cael ei dderbyn cytunwyd llythyru gyda Phennaeth yr Adran.<br>Y clerc i adrodd am y ceisiadau sydd wedi eu gwneud yn ystod y tair blynedd diwethaf parthed y lon a phryderon am oryrru. Hefyd esbonio bod hon yn lôn sydd yn cael ei cherdded gan fwyafrif o deuluoedd yn y pentref gyda chŵn a phlant.<br>Y clerc hefyd i bwysleisio bod SAT NAV'S yn cyfeirio lorïau a charafanau ar hyd lôn gul sydd yn gyson gael ei defnyddio i drosglwyddo anifeiliaid gan ffermwyr a threlars ac yn creu problemau anferthol.<br><br>**h) <u>JG - AMBIWLANS AWYR CYMRU</u>**<br>Gwrthwynebiad y Cyngor wedi ei yrru ymlaen |
| **5.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim yn cael ei ddatgan |
| **6.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Popeth mewn cyflwr derbyniol |
| **7.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **<u>JG – TYN PARC LLITHFAEN</u>**<br><br>Cais gan berchennog Tyn parc am adborth y Cyngor Cymuned<br>Yn dilyn trafodaeth ar y mater cytunwyd lythyru yn adrodd bod y Cyngor Cymuned yn cefnogi argymellion yr Adran Cynllunio. |
| **8.** | **SAFLE WE Y CYNGOR** |
| | Derbyniwyd sbec manwl gan Gethin Jones o'r gwaith fydd yn cael ei hysbysebu ar gyfer gwefan y Cyngor.<br>Nid oedd yr aelodau yn dymuno hysbysebu eu cyfeiriad e.bost. |
| **9.** | **LLECYNNAU ANGEN EU HARDDU YN LLITHFAEN** |
| | Cynhaliwyd gyfarfod yn ddiweddar gyda Swyddogion Cyngor Gwynedd, SP a JG.<br>Gan fod cwestiynau yn codi am berchnogaeth a chyfrifoldeb y llecynnau gwyrdd gofynnwyd i'r clerc gysylltu a'r Land Registry i gadarnhau hyn. Cytunwyd talu hyd at £300 am y gwybodaeth. |
| **10.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN / LES Y GANOLFAN** |
| | Gwaith yn parhau, disgwylir gwblhau ymhen rhyw ddau fis. |
| **11.** | **MATERION LLEOL** |
| | **<u>DT - BUDREDDI CWN YN Y CAE CHWARAE LLITHFAEN</u>**<br>Y clerc i adrodd y mater i'r Cyngor Sir |

| | |
|---|---|
| **12.** | **HYFFORDDIANT** |
| | Dim i'w drafod |
| **13.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |

**a) BWRIAD GAN UN O DRIGOLION PISTYLL I GEFNOGI'R DEFFIBLWR**
Y clerc i yrru llythur o ddiolch

**b) DEISEB CYNLLUN HEDDLU YSGOLION**
Adroddodd y clerc ei bod yn hanfodol i'r aelodau ei lenwi fel unigolion hefyd.

**c) AMSERLEN CAMAU CYN ETHOLIAD**

**d) CYNGHORAU CYMUNED A THREF - LWFANSAU CYNGHORWYR**
I'w drafod fis nesaf

**e) BWLETIN NEWYDDION MANTELL GWYNEDD**
Dim sylwadau

**f) PENDERFYNIAD LLYWODRAETH CYMRU I ROI GORAU I ARIANNU'R CYNLLUN HEDDLU YSGOLION (CASE REF: LS19340)**

**g) NEWYDDION GWYRDDNI PEN LLŶN**
Dim sylwadau

**h) AIL GARTREFI PEN LLYN**
Adroddodd y clerc ei bod yn hanfodol i'r aelodau ei lenwi fel unigolion hefyd.

**i) WYTHNOS FAWR WERDD**
Dim sylwadau

**j) MENTER RABAR - CAIS AM GEFNOGAETH ARIANNOL**
Y clerc i adrodd cefnogaeth y Cyngor ac ymddiheuro ei fod yn bolisi'r Cyngor i ond cefnogi yn ariannol mudiadau lleol.

| | |
|---|---|
| **14.** | **CYLLID** |

**CYSONIAD 2024/ 2025**

| | | | |
|---|---|---|---|
| + | **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2024** | | **£ 17,184.69** |
| + | **CYFRIF CADW MAWRTH 2024** | | **£ 2,717.05** |
| - | **LLAI TALIADAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | **£ 3,936.75** |
| + | **GWARGED 2024/ 2025** | | **£ 2,292.56** |
| = | **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 18,257.55** |

**I GYTUNO A DATGANIADAU'R BANC**

**CYFRIF CYFREDOL - 01 o Mai I 31 o Mai 2024**

| | | |
|---|---|---|
| Balans Agoriadol | | **£ 16,234.91** |
| Derbyniadau | + | £ 6,000.00 |
| Gwariant | - | £ 3,580.00 |
| Balans Cau | = | **£ 18,654.61** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFRIF CADW - 07 Ebrill I 6ed o Fai 2024** | | | - |
| Balans Agoriadol | | | **£ 2,717.05** |
| Derbyniadau | | + | £ - |
| Gwariant | | - | £ - |
| Balans Cau | | = | **£ 2,717.05** |
| | | = | **£ 21,371.66** |
| **LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC** | | | - |
| - | Cylch Meithrin Pentreuchaf | **201298** | £ 200.00 |
| - | Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl | **201299** | £ 200.00 |
| - | Cae Chwarae Llithfaen | **201304** | £ 910.00 |
| - | Clear Council Insurance | **201312** | £ 671.53 |
| | | = | **£ 1,981.53** |
| **LLAI TALIADAU I'W CYMERADWYO** | | | |
| - | Cyngor Gwynedd | **201314** | 570.00 |
| | Cyflog a threuliau clerc | **201315** | 294.98 |
| | D. Ellis - Cynnal Deffib | **201316** | 267.60 |
| | | = | **£ 1,132.58** |
| **SYDD YN CYTUNO GYDA CRONFA'R CYNGOR** | | = | **£ 18,257.55** |
| - | **LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (LL)** | - | **-£ 15.70** |
| - | **LLAI BALANS CRONFA DIFFIBLWR (P)** | | **£ 290.00** |
| = | **CYFANSWM CYWIR Y CYFRIFON** | = | **£ 17,983.25** |

| | |
|---|---|
| **15.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | Lwfansau Aelodau<br>9fed o Orffennaf, 2024, Capel Isaf, Llithfaen am 7y.h |